

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

6/6/ 2017

Presennol: Heledd Jones (Cadeirydd), Alwyn E Jones (Is-gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Beryl Hughes Griffiths, Ian Trow

1717 Croesawyd pawb a mynegwyd cydymdeimlad y gymuned gyda phawb a ddioddefodd oherwydd y gweithrediadau deroristaidd diweddar ym Manceinion a Llundain.

1718 Cyhoedd: Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1719 Buddiant: Nid oedd datganiadau buddiant.

1720 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 2/5/17.

1721 Materion y Clerc : Adroddwyd nad oedd Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn trefnu hyfforddiant ond fod y cais wedi ei yrru ymlaen at y Tîm Opsiynau Tai. Ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn.

1722 Is bwyllgor y Fynwent: Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod 15/5/17 Cytunwyd ag argymhelliad yr is-bwyllgor i holi am bris ar gyfer gwneud y gwaith angenrheidiol yn y fynwent.

1723 Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd Adroddiad y Cyngorydd Sir ac fe esboniodd y swyddi a rolau newydd yng Nghyngor Gwynedd ar ôl yr etholiadau lleol.

1724 Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru: Arweiniodd Huw P Roberts y Cyngor trwy gofnodion y pwyllgor diwethaf, ac agenda'r cyfarfod ardal nesaf pryd y trafodir atal troseddau yng nghefn gwlad Meirionnydd.

1725 Materion Eiddo'r Cyngor: Nid oes unrhyw ddiffygion a bydd y gwaith cynnal ar y meinciau yn cael ei gwblhau cyn diwedd yr haf.

1726 Materion ariannol –

- i. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis. Cytunwyd i ymrwymo i'r cytundeb yswiriant am 3 mlynedd.
- ii. Darllenwyd y Cyfrifon a ardystiwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ar 3/6/17, a darllenwyd sylwadau'r Archwilydd Mewnol ar y Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2016-17. Cytunwyd gyda'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol. Cymeradwywyd i sylw'r Archwilydd Allanol y Ffurflen Flynyddol ar gyfer Cyngor Cymuned Llanuwchllyn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/17. Arwyddodd y Cadeirydd y dogfennau ar gyfer archwilwyr BDO.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

- iii. Arwyddodd aelodau o'r Cyngor Mandadau Banc ar gyfer arwyddo'r llyfr sic.
- iv. Trafodwyd y ffordd orau i hawlio ad-daliad TAW ar gostau megis papur sy'n cael eu prynu gan y Clerc; cytunwyd i argymhell fod Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn gwneud yr archebion a'r taliadau ar gyfer y 3 Cyngor, a bod SAC Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn hawlio'r ad-daliad ac yn anfonebu'r ddau Gyngor arall (llai TAW).

1727 Materion lleol:

- i. Cytunodd nifer o'r Cynghorwyr i chwynnu'r Gilfach Goffa.
- ii. Adroddodd Rhodri Jones ei fod wedi trefnu efo swyddog Parc Cenedlaethol Eryri a thirfeddianwyr i gerdded Llwybr y Cei gyda'r bwriad o gytuno ar gynllun i dorri'r tyfiant ochr yr afon. Diolchwyd iddo am gydlynu'r prosiect hwn.
- iii. Llwybr Tegid: Mae trafodaethau yn parhau ac fe fydd adroddiad pellach yn y cyfarfod nesaf.

1728 Partneriaeth Penllyn: Adroddodd y Cynrychiolwyr fod y swydd o Gydlynnydd mewn llaw a bod trafodaethau ar hyn o bryd parthed cynnal Toiledau Cyhoeddus yn Y Bala.

1729 Gohebiaeth: Parc Cenedlaethol Eryri:

- a. Cytunwyd i dderbyn y cynnig o goed afalau i'w plannu mewn lleoliad yn y gymuned.
- b. Nodwyd derbyn gwybodaeth am warchod awyr dywyll, a gwahoddiad i Noson Agored 13/6/17 yng Nghoed y Brenin

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 4/7/17 yn y Neuadd Bentref.

Amser gorffen: 8.30